

MUDIAD CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



IS BWYLLGOR CYLLID A RHEOLI
DYDD Mawrth , 25 IONAWR, 2022
ZOOM, 7.30yh

COFNODION

CADEIRYDD: Iwan Meirion

IS-GADEIRYDD: Caryl Haf

PRESENNOL: Malcolm Thomas (Arbenigwr Pwyllgor), Caryl Haf (Cadeirydd y Cyngor), Kathryn Jones (Arbenigwr Pwyllgor), Katie Davies (Cyn Gadeirydd y Cyngor), Hefin Evans (Is Gadeirydd y Cyngor), Dewi Davies (Is Gadeirydd Materion Gwledig), Dafydd Jones (Cadeirydd Grŵp yr Adeilad), Iwan Meirion (Cadeirydd Cyllid a Rheoli), William Jones (Cadeirydd Materion Gwledig) & Aled Thomas (Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata).

HEFYD YN BRESENNOL: Phil Ellis (Prif Weithredwr CFFI Cymru) a Claire Powell (CFFI Cymru)

FM/12/1922 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd Iwan Meirion bawb i'r cyfarfod.

FM/13/1922 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nodwyd ymddiheuriadau gan Hilary Jones, Cerys Hart, Chris Lewis, Steve Hughson, Sian Healey a Sioned Davies.

FM/14/1922 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – 15 TACHWEDD 2021

Cafodd y cofnodion eu cylchredeg cyn y cyfarfod ac fe gytunwyd gan y rhai oedd yn bresennol i arbrofi'r cofnodion gyda'r amod canlynol.

- Amodau gorchwyl – mae arbenigwyr yma mewn rôl ymgynghorol yn unig ac heb hawl i bleidleisio.

FM/15/1922 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

GWEITHRED	SYLWADAU
Pwynt 1 Ymddiriedolaeth Terence Meredith – dilyn i fyny trawsglwyddo'r arian gyda CAFC a'r cyfreithiwr.	Ar yr Agenda i'w drafod.
Pwynt 2 Cwblhau newidiadau arwyddo ar y cyfrif banc.	Nodwyd fod y ffurflen gorchymyn wedi'i danfon i NatWest.
Pwynt 3 Cronfa Adferiad Diwyllianol Rhan 1 –	I'w drafod yn adroddiad y Prif Weithredwr.

I roi adborth yn y cyfarfod nesaf gyda rhagor o wybodaeth o le 'rydym gyda'r prosiect.	
Pwynt 4 Office 365 - i ddilyn i fyny gyda BCCIT a symud ymlaen gyda'r prosiect.	I'w drafod yn adroddiad y Prif Weithredwr.
Pwynt 5 Gwaith Marc Ansawdd i'w ddanfon allan at ymgynghorwr.	I'w drafod yn adroddiad y Prif Weithredwr.
Pwynt 6 IPADS - I sicrhau fod gan swyddogion presennol IPADS i'w defnyddio os dymunant.	Mae'r pwynt hyn wedi ei weithredu.
Pwynt 7 I edrych ar ddefnydd o WIFI yn y dyfodol.	Dim gweithred ar hwn hyd yn hyn. Fodd bynnag fe gytunwyd y byddai Grŵp yr Adeilad yn gweithio ar hyn fel a phan fydd y brosiect yn symud ymlaen.

FM/16/1922

GOHEBIAETH

Dim

FM/17/1922

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH TERRENCE MEREDITH

Cafwyd cadarnhad gan Kathryn Jones fod y mater yma wedi cael ei ddelio gyda a dylai'r arian gyrraedd banc CFFI Cymru yn y dyfodol agos. Cytunwyd y byddai Claire Powell yn diweddarau aelodau'r pwyllgor unwaith fydd y deliad wedi'i gyflawni. Diolchwyd i Kathryn am ei gwaith a nodwyd fod y pwyllgor yn falch iawn fod y mater wedi ei gwblhau ar ôl broses hir.

FM/18/1922

ADRODDIAD GRŴP YR ADEILAD

Rhoddyd adroddiad Grwp yr Adeilad gan y Cadeirydd Dafydd Jones a ddechreuodd gan ddweud fod cyfarfod ac ymweliad wedi cymryd lle ar Faes y Sioe a Chanolfan CFFI Cymru gyda Celf Creative. 'Roedd Celf Creative wedi cwblhau lluniau o sut y gallai'r adeilad newydd edrych a rhanwyd hyn ar y sgrin. Nodwyd fod cronfa'r Loteri o £37,000 wedi ei arbrofi i gynnwys gwariant fyny at y cyfnod cynllunio. 'Doedd dim rhagor o wario wedi ei gadarnhau tu hwnt i'r pwynt yma. 'Roedd Phil wedi dechrau edrych allan am gronfeydd arian eraill am yr adeilad ei hunan. Nodwyd y byddai rhaid cael gafael ar gostiadau llawn a dod ar gwybodaeth yn ôl i'r pwyllgor. Cytunodd y pwyllgor y dylai llythyr gael ei ddanfon i'r holl gwmnïau ac unigolion a oedd wedi bod yn garedig drwy roddi arian i'r ymgyrch 'Prynu Bric'. Cadarnhaodd Dafydd fod llythyr eisioes wedi cael ei ddrafftio ond nad oedd yn siwr a'i ddanfonwyd neu pheidio. Cytunwyd i ddilyn hyn fyny ac i ddanfon llythyr.

FM/19/1922

ADRODDIAD CYLLID

Adroddodd Claire Powell, Rheolwr Cyllid a Gweinyddiaeth, fel a ganlyn:

- a) **Balans Banc** – nodwyd.
- b) **Digwyddiadau** – adroddwyd fod dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb wedi cymryd lle yn cynnwys yr Eisteddfod a'r Ffair Aeaf. Cafwyd arolwg cyffredinol o incwm a gwariant ac fe nodwyd fod yr Eisteddfod ar hyn o bryd wedi gwneud ychydig o elw gyda'r Ffair Aeaf ychydig o golled.

- 'Roedd Sir Frycheiniog wedi casglu dros £3,000 mewn nawdd i'r Eisteddfod ac fe fydd rhaid cael rhagor o nawdd yn y dyfodol tuag at y Ffair Aeaf.
- c) **Grantiau a cyfraniadau** - hyd yn hyn mae'r canlynol wedi cael eu derbyn:
- S4C - cyfraniadau = £750
 - Grant yr Iaith Gymraeg = £63,000 yn dal i'w ddisgwyl ar hyn o bryd ond mae Rhodri Lewis (Swyddog yr Iaith Gymraeg) wedi cadarnhau fod y swm llawn i'w ddisgwyl yn fuan.
 - NYVO - £30,000 o flwyddyn 2 o'r cais presennol yn aros i'w dalu.
 - Ymddiriedolaeth Elusennol NFU - £7000 (dyddiad y cais nesaf ym mis Mai) Cytunwyd y byddai teithiau Agri Eye i'w cynnwys yn y cais hyn.
 - Cronfa Adferiad Ddiwyllianol Rhan 2 - £87,633
- d) Elusen a ddewiswyd gan CFFI Cymru - wedi cael ei gadarnhau fel Cymdeithas Alzheimers gyda cyfraniadau i'w danfon i CFFI Cymru oddiw'rth unigolion, cwmnïau a Siroedd. Fe gaiff sic terfynol ei gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn.
- e) Llofnodion Banc - mae ffurflen gorchymyn yn awr wedi ei chyflwyno i NatWest i newid y llofnodion Banc, yn ychwanegu Phil Lewis a symud Rhodri Lewis.
- f) Nawdd - Mae nawddd wedi cael ei dderbyn gan Dwr Cymru, APB a Dunbia gyda trafodaeth yn dechrau gyda cwmnïau eraill am ymrwymiad i'r dyfodol. Cynigodd Kathryn Jones gefnogaeth gyda pharatoi pecynau am nawdd. Nodwyd hefyd efallai y gallwn ofyn i Dunbia a fyddent yn medru cefnogi CFFI Cymru gyda canllawiau barnu stoc a fideos hyfforddiant. Cynigodd y pwyllgor y dylai pwyllgo Materion Gwledig gysylltu gyda Dunbia ynglyn a hyn.
- g) Eisteddfod - Diolchwyd i Kathryn Jones, Castell Howell am ddarparu cludiant y llwyfan i'r Eisteddfod gan arbed costau trafniadaeth.
- h) Cinio'r Cadeirydds - nodwyd nad oedd dyddiadau na trafodaeth wedi dechrau eto gyda'r Siroedd ynglyn a'r tri Cinio'r Cadeirydd. 'Roedd hyn o achos cyfyngiadau Covid a ddaeth i rym yn Ionawr 2022.

FM/ 20/1922

ADRODDIAD GAN BRIF WEITHREDWR CFFI CYMRU

Rhoddyd adroddiad y Prif Weithredwr gan Phil Ellis, CFFI Cymru:

- a) **Staffio** - Mae Rhodri Lewis, Swyddog yr Iaith Gymraeg bresennol, yn gadael ei swydd ar 18fed Chwefror 2022. Mae'r ymgeisydd am y swyddog Materion Gwledig wedi tynnu'n ôl. Felly mae'r ddau swydd allan i'w hysbysebu.
- b) **Office 365** - mae hyn yn dal i fynd ymlaen gyda cyfarfod wedi ei drefnu gyda BCCIT I symud y brosiect ymlaen. Pwysleisiodd Iwan Meirion bwysigrwydd hyn gan fyddai o fudd i'r Siroedd yn ogystal a CFFI Cymru.
- c) **Cronfa Adferiad Diwyllianol Rhan 1** - mae gwaith gyda Menter yn dal i fynd ymlaen ac mae diweddariadau cyson a chyfarfodydd yn cymryd lle. Fe ddylai'r adolygiad a gwaith arall gael ei gwblhau cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae cynllun marchnata bron wedi ei gyflawni.
- d) **Diweddariadau Grantiau Misol** - cytunwyd y byddai diweddariad o grantiau wedi ymgeisio am, grantiau wedi eu derbyn ac ymgeisiadau sy'n aros yn cael ei ddanfôn allan yn fisol i bob aelod pwyllgor gan Phil.
- e) **Cefnogaeth Gweinyddol** - nodwyd fod rhif staff presennol yn llawn a byddai cael swydd gweinyddol ychwanegol o fudd i'r gyfundrefn wrth symud ymlaen. Gofynnodd y pwyllgor am gael gweld strwythur staff i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- f) **Swyddog Incwm** - adroddodd Phil y byddai swydd i swyddog incwm o fudd i'r gyfundrefn a bod yna botensial o nawdd i'r swydd yma. Cytunodd y pwyllgor y byddai'r rôl yma yn fanteisiol yn enwedig os

fyddai'n ei noddi yn y flwyddyn gyntaf. Cytunwyd i symud ymlaen gyda'r cais am grant.

FM/21/1922

EITEMAU AGENDA & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel **dydd Mawrth 5ed Ebrill 2022**, wyneb yn wyneb yng Nghanolfan CFFI.

Eitemau Agenda i'r cyfarfod nesaf:

- Costau adeiladu'r Adeilad
- Menter a Busnes – diweddariad llawn ar yr adolygiad
- Amserlen grantiau

FM/22/1922

UNRHYW FUSNES ARALL

- a) **Claire Powell** – croesawodd y pwyllgor Claire yn ôl ar ôl ei chyfnod mamolaeth and diolchwyd iddi am ei gwaith hyd yn hyn.
- b) Gan nad oedd rhagor o fusnes gorffenwyd y cyfarfod am 8.45yh

CRYNODEB O WEITHREDIADAU

GWEITHRED	COMMENTS
Pwynt 1 Claire Powell i ddiweddarau'r pwyllgor pan fydd yr arian wedi'i dderbyn gan CAFC. Fe fydd rhaid wedyn i Gronfa Ymddiriedolaeth Terrence Meredith barhau fel cronfa gyfyngiedig.	
Pwynt 2 Grwp yr Adeilad i roi'r costau cyflawn i'r brosiect adeiladu llawn cyn cyflwyno unrhyw wariant.	
Pwynt 3 Llythyr i'w ddanfôn i bob cwmni ac unigolion a gyfranodd i'r ymgyrch 'Prynu Bric'.	
Pwynt 4 Office 365 i symud ymlaen.	
Pwynt 5 Phil Ellis i ddarparu drafft o strwythur staff i'w gymeradwyo gan Personél a Thâl a hefyd Cyllid a Rheoli.	

Llofnod:

Dyddiedig: